# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2774A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 8

Rheoli adnoddau ariannol 23

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 28

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig cam dau yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig cam un ar gyfer 2021 ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut y mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Fe wnaeth pandemig COVID-19 hi'n ofynnol i gyrff y GIG fynd ati'n gyflym i addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau penderfynu i sicrhau bod camau gweithredu amserol yn cael eu cymryd i ymateb i'r ymchwydd yn y galw brys o ganlyniad i COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Fe wnaeth ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig 2020 ystyried trefniadau llywodraethu diwygiedig y Bwrdd Iechyd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan COVID-19, gan hefyd ddechrau bwrw ymlaen â chynlluniau i ailosod ac adfer gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Felly, cafodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021 ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig gan felly sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Mae ail gam ein hasesiad strwythuredig yn 2021 wedi ystyried sut y mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu dros y 12 mis diwethaf. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi cael ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn dylanwadu ar drefniadau at y dyfodol i sicrhau llywodraethu da a chyflawni gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o'r modd y mae'r Bwrdd wedi bod yn craffu ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22.

5 Rydym wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau ar asesiadau strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

6 **Ar y cyfan, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n effeithiol at ei gilydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, ei fod yn ymrwymedig i wasanaethau o ansawdd da a lles staff, a bod ganddo gynlluniau wedi datblygu'n dda a gaiff eu monitro'n rheolaidd. Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol, mae wedi cynnal rheolaethau a threfniadau adrodd ariannol effeithiol, ac mae'n gweithio'n galed i gyflawni adferiad ariannol. Fodd bynnag, mae angen i newidiadau i'r tîm Gweithredol ymwreiddio, mae angen cryfhau trefniadau gweithredol ar gyfer llywodraethu risg ac ansawdd ac mae cyfleoedd i wella gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd.**

7 Mae'r Bwrdd yn parhau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw, ond mae angen i wefan y Bwrdd Iechyd wella er mwyn ei gwneud yn bosibl cael mynediad rhwyddach at gynnwys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da, gan amrywio mynychder cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fel y bo'n briodol, ac yntau'n gweld faint o bwysau sydd ar uwch aelodau o staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd ac mae wedi llwyddo gan mwyaf i gynnal parhad o ran aelodau annibynnol, er bod angen adfer y Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd. Mae cyfle i wella ansawdd gwybodaeth a ddarperir ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, gan leihau swm yr wybodaeth a mynd ati ar yr un pryd i gynyddu'r ffocws ar gamau gweithredu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal cyfleoedd i sicrhau prosesau penderfynu cyflym ac wedi cynyddu'r ymgysylltu â'i Grwpiau Gwasanaeth. Bu nifer sylweddol o newidiadau i'r Tîm Gweithredol dros y flwyddyn ddiwethaf, ond bydd penodiadau diweddar yn helpu cynaliadwyedd.

8 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ar gyfer parhau â'i ymateb i COVID-19 a chynllunio ac ailosod gwasanaethau, gan amcanu at ddarparu cynaliadwyedd tymor hwy. Bu ymgysylltu cadarnhaol ynghylch newidiadau i wasanaethau ac mae partneriaethau'n gweithio'n dda. Mae adroddiadau ar gynnydd i'r Bwrdd ar gyflawni cynlluniau'n dda. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith, ac mae trefniadau rheoli risgiau corfforaethol yn dal i weithio'n dda. Fodd bynnag, mae angen gwella'r modd y rheolir risgiau ar lefel gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymrwymo i les staff. Mae ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n flaenoriaeth a chymerir camau ymatebol i wella pan fo angen. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad llywodraethu ansawdd wedi canfod bod angen gwaith sylweddol i gryfhau trefniadau llywodraethu ansawdd gweithredol. Er bod trefniadau i dracio argymhellion archwilio yn eu lle, mae diffyg gwybodaeth reolaidd mewn perthynas ag argymhellion unigol yn cyfyngu ar graffu, ac mae nifer o argymhellion bellach yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith.

9 Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, mae wedi cynnal rheolaethau ac adroddiadau ariannol effeithiol, ac mae'n gweithio'n galed i gryfhau ei adferiad ariannol. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21, gan ddiweddu'r flwyddyn â diffyg o £24.3 miliwn ac er bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn gyda'i gynllun ariannol ar gyfer

2021-22, bydd yn parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol oherwydd diffyg ariannol diwedd blwyddyn wedi'i gynllunio o £24.4 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal rheolaethau ariannol priodol ac mae'n parhau i gryfhau ei reolaeth ariannol i gefnogi adferiad ariannol. Mae goruchwylio a chraffu ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol yn dal i ddigwydd, gyda hynny'n cael ei ategu gan adroddiadau cynhwysfawr.

# Argymhellion

10 Caiff yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Gwefan y Bwrdd Iechyd**<br>A1 Mae'n anodd gwe-lywio trwy wefan y Bwrdd Iechyd i ddod o hyd i recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd a gwybodaeth gyfoes sy'n ymwneud â'r Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i drefn gwe-lywio'r wefan cyn gynted â phosibl i alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth a recordiadau cyfoes a chael mynediad atynt yn rhwydd. |
| **Effeithiolrwydd pwyllgorau**<br>A2 Cynhelir y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr un diwrnod gyda'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cael ei gyflwyno i'r ddau. Mae hyn yn arwain at risgiau o ddyblygu mewn trafodaethau, neu fod aelodau o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn colli trafodaethau pwysig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried symud y ffocws manwl ar yr adroddiad perfformiad i brif gyfarfod y Bwrdd, gan leihau'r risg o ddyblygu yng nghyfarfodydd y pwyllgorau a rhyddhau capasiti iddynt gynnal astudiaethau dwfn o feysydd sy'n achosi pryder. |
| **Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau**<br>A3 Gallai hyd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau effeithio ar allu aelodau i amsugno'r wybodaeth a ddarperir ar eu cyfer, gyda rhywfaint o ddyblygu o ran y cynnwys. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y darperir hyfforddiant ar gyfer awduron papurau agenda i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei |

**Argymhellion**

chrynhoi'n briodol, a bod y negeseuon allweddol yn cael eu hamlygu mewn papurau esboniadol.

**Adroddiad Perfformiad Integredig**

A4 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddisgrifio perfformiad. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad trwy ddarparu rhagor o berfformiad am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i wella neu gynnal perfformiad.

**Y Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd**

A5 Yn ystod y pandemig nid yw'r Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd wedi cwrdd ac ni fu unrhyw gynrychiolaeth o'r fforwm ar y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adfer y Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd a sicrhau bod y Cadeirydd yn mynychu'r Bwrdd yn rheolaidd.

**Tracio argymhellion archwilio**

A6 Er bod trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio yn eu lle, nid oes ffocws rheolaidd ar argymhellion unigol. Fel rhan o'r adroddiad tracio argymhellion archwilio ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys diweddariad ar gamau gweithredu yn erbyn pob argymhelliad unigol.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd tra'r oedd yn parhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.

12 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n effeithiol at ei gilydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, ei fod yn ymrwymedig i wasanaethau o ansawdd da a lles staff, a bod ganddo gynlluniau wedi datblygu'n dda a gaiff eu monitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen i newidiadau i'r tîm gweithredol ymwreiddio, mae angen cryfhau trefniadau gweithredol ar gyfer llywodraethu risg ac ansawdd ac mae cyfleoedd i wella gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd.**

## Cynnal busnes yn effeithiol

13 Canfuom **fod y Bwrdd yn parhau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw, ei fod wedi parhau i oruchwylio'i drefniadau llywodraethu a'i fod yn ymrwymedig i adolygu ei effeithiolrwydd. Mae nifer sylweddol o newidiadau i'r tîm Gweithredol yn darparu cyfle ar gyfer ffordd newydd o feddwl a sefydlogrwydd ond byddant yn cymryd amser i ymsefydlu. Mae cyfleoedd i wella ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir ar gyfer craffu a sicrwydd.**

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n rhithwir. Mae lefelau presenoldeb wedi bod yn dda ac mae moesau cyfarfodydd rhithwir bellach wedi hen ymsefydlu, gyda chyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n gwneud defnydd da o'r dechnoleg sydd ar gael. Ni fu unrhyw faterion mawr o ran cysylltedd TG ac eithrio problem cysylltu a ddigwyddodd yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021; fodd bynnag, fe ymdriniwyd â hyn yn effeithiol ac yn gyflym. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu parhau â'r trefniadau rhithwir ond mae â'i fryd ar ailddechrau cynnal cyfarfodydd Bwrdd wyneb yn wyneb cyn gynted ag y bydd hi'n ddiogel i wneud hynny.

15 Mae papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ymlaen llaw cyn cyfarfodydd. Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu cyflwyno cwestiynau rhag blaen i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd mwyach ond roeddent yn gallu cyflwyno cwestiynau cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Trafodir cyn lleied â phosibl o fusnes y Bwrdd a phwyllgorau mewn sesiynau preifat, er bod crynodeb o eitemau ar yr agenda a drafodir yn cael ei gynnwys yn y papurau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, sy'n arfer da.

16 Cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd ychwanegol yn ystod y flwyddyn i'w gwneud yn bosibl trafod eitemau er mwyn gallu cydymffurfio â therfynau amser Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ychydig o gyfarfodydd Bwrdd ychwanegol wedi cael eu cynnal i ganolbwyntio ar faterion penodol sydd o ddiddordeb i'r boblogaeth leol. Mae'r rhain

wedi cynnwys y Cynllun Gofal Brys, canlyniad rhaglen ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd, 'Newid ar gyfer y Dyfodol', a chanlyniadau adolygiad clinigol â ffocws ar lawfeddygaeth mewnblaniad falf aorta drwy gathetr a gyflawnir yn y Bwrdd Iechyd.

17 Mae holl gyfarfodydd y Bwrdd wedi parhau i gael eu ffrydio'n fyw, sy'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Bwrdd i dryloywder cyhoeddus. Caiff recordiadau eu lanlwytho i sianel YouTube y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl i gyfarfodydd ddod i ben. Caiff recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd eu hyrwyddo trwy sianeli'r Bwrdd Iechyd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dolenni'n cael eu darparu. Fodd bynnag, mae angen gwella mynediad at recordiadau, ynghyd â gwybodaeth gyfoes sy'n ymwneud â'r Bwrdd, trwy wefan y Bwrdd Iechyd ei hun[1] (gweler **argymhelliad 1**).

18 Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn dal i fod yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

## Cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

19 Y llynedd, fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig nodi sut y gwnaeth y Bwrdd Iechyd symleiddio cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i ymateb i COVID-19. Fe arweiniodd hyn at gynyddu mynychder cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, symleiddio agendâu, ac atal rhai pwyllgorau dros dro. Hwyluswyd y trefniadau hyn gan amrywiad dros dro o rannau o reolau sefydlog y Bwrdd Iechyd[2]. Canfuom fod y trefniadau dros dro hyn wedi gweithio'n dda a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson gan y Bwrdd Iechyd.

20 Ym mis Medi 2020, fe newidiodd y Bwrdd yn ôl i gyfarfodydd deufisol ac fe gafodd pob pwyllgor a ataliwyd dros dro ei ailgychwyn. Llwyddwyd i barhau i gynnal y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod ail frig COVID-19. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi parhau i gwrdd bob mis trwy gydol 2021, o ystyried yr angen parhaus i gynnal goruchwyliaeth ar effaith y pandemig ar ofal cleifion. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi parhau i gwrdd yn fisol hefyd, fel yr oedd yn ei wneud cyn y pandemig, oherwydd yr heriau ariannol yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu. Cafodd yr amrywiadau dros dro i'r rheolau sefydlog eu dadwneud yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2021.

21 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw ei ffocws ar leihau'r baich ar amser cyfarwyddwyr gweithredol ac mae'n parhau i sicrhau bod agendâu'n cynnwys ffocws pendant ac nad yw cyfarfodydd yn para am yn hwy na thair awr. Canfu ein harsylwadau ni ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau eu bod yn cael eu cadeirio'n dda ar y cyfan, gyda thrafodaeth â ffocws ar faterion allweddol, a chyfraniadau gan bawb a oedd

[1] Er enghraifft, er bod dolen ar wefan y Bwrdd Iechyd i'w dudalen YouTube, dim ond y recordiad o gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2020 y mae tudalen benodol ar gyfer recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd yn yr adrannau dogfennau/cyfarfodydd allweddol yn ei gynnwys. Hefyd, mae'r dewislenni sydd ar gael yn yr adran dogfennau/cyfarfodydd allweddol yn mynd yn ôl at hen opsiynau ar y ddewislen gan ddibynnu sut y mae'r defnyddiwr yn gwe-lywio drwy'r system.

[2] Fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2020.

yn bresennol. Bu rhai newidiadau i gadeiryddion pwyllgorau dros y misoedd diwethaf, oherwydd amgylchiadau newidiol ar gyfer rhai aelodau annibynnol.

22 Cafodd eitemau'r Bwrdd a phwyllgorau a ohiriwyd yn ystod 2020 eu nodi'n glir ar log camau gweithredu sydd yn yr arfaeth, ac mae pob eitem bellach wedi'i hadfer i raglenni gwaith priodol gan y Bwrdd a phwyllgorau.

23 Ceir croesgyfeirio da rhwng pwyllgorau ac mae'r adroddiadau ar faterion allweddol ar gyfer y Bwrdd yn disgrifio gwaith y pwyllgorau'n glir ac yn nodi meysydd ar gyfer uwchgyfeirio. Ceir cydnabyddiaeth bod gorgyffyrddiad rhwng gwaith y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cyflwynir yr Adroddiad Perfformiad Integredig i'r ddau bwyllgor, ac maent yn cwrdd yr un diwrnod. O ganlyniad, ceir trafodaeth fanwl am berfformiad yn y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid sydd naill ai'n llai neu'n cael ei hailadrodd yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Er bod peth cysondeb o ran aelodaeth rhwng y ddau bwyllgor, ceir aelodau annibynnol a chyfarwyddwyr gweithredol eraill ar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y mae perygl nad ydynt yn clywed y negeseuon allweddol os ydynt wedi cael eu trafod yn barod yn y cyfarfod cynharach (gweler **argymhelliad 2a**). Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng y ddau bwyllgor ym mis Mai 2021, i drafod materion penodol a myfyrio ynghylch y modd y gallai'r ddau bwyllgor gydweithio'n fwy effeithiol. Fe wnaeth adborth o'r cyfarfod oleuo'r adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar gyfer 2020-21 (trafodir hyn ym **mharagraff 30**) gyda ffocws penodol ar leihau achosion o ddyblygu ymdrech. Mae cyfle hefyd i ystyried cynnal y cyfarfodydd ar ddiwrnodau gwahanol i leihau'r cyfnod maith o ffocws a phresenoldeb sy'n ofynnol trwy gynnal y ddau gyfarfod ar yr un diwrnod.

24 Mae rhaglen reolaidd o sesiynau briffio a sesiynau datblygu ar gyfer y Bwrdd wedi cael ei chynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi cadw sesiynau briffio anffurfiol wythnosol gydag aelodau annibynnol, y mae'r Prif Weithredwr yn gallu bod yn bresennol ynddynt os bydd angen rhoi diweddariad i aelodau am faterion brys. Ar y cyd, mae'r rhain wedi galluogi aelodau'r Bwrdd i gael eu briffio'n rheolaidd ar yr ymateb parhaus i COVID-19 yn ogystal ag ymwneud yn fwy anffurfiol â thrafodaethau strategol a gweithgareddau datblygu ehangach. Fel a ddigwyddodd yn 2020, cyfyngedig fu'r angen i ddefnyddio Camau Gweithredu gan y Cadeirydd ond pan ddefnyddiwyd y rhain, ceir tystiolaeth glir bod aelodau wedi craffu arnynt a'u bod wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd wedyn.

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Bwrdd a phwyllgorau

25 Trefnir bod papurau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i aelodau annibynnol ymlaen llaw cyn cyfarfodydd yn unol â'r rheolau sefydlog. Mae papurau agendâu'r Bwrdd ar y cyfan yn cynnwys tua 500 o dudalennau ar gyfer pob cyfarfod, er bod hyd y papurau ar adegau wedi bod yn agos at 1,000 o dudalennau. Mae papurau agendâu pwyllgorau'n cynnwys rhwng 250 a 400 o dudalennau. Ar gyfer nifer o gyfarfodydd, darperir papurau ychwanegol hefyd mewn pecynnau 'adnoddau' sy'n ychwanegu at swmp y papurau y mae angen i'r aelodau eu darllen. Ar gyfer aelodau annibynnol sy'n aelodau o'r Pwyllgor

Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sy'n cwrdd ar yr un diwrnod, gall swmp cyfunol y papurau ar gyfer y ddau gyfarfod fod yn agos at 900 o dudalennau. Ceir risg y gallai swmp y papurau effeithio ar allu aelodau i amsugno'r holl wybodaeth a gyflwynir iddynt.

26 Caiff templed safonol ar gyfer papur eglurhaol ei ddefnyddio'n rheolaidd i ddarparu crynodeb defnyddiol o'r materion allweddol ym mhapurau'r Bwrdd a phwyllgorau a'r hyn sy'n ofynnol. Fodd bynnag, mae cyfle i symleiddio papurau esboniadol. Er enghraifft, mae tudalen gyntaf papurau ar yr agenda'n cynnwys adran ar argymhellion, ac mae awduron yn rheolaidd yn cynnwys yr argymhellion yn y papur esboniadol hefyd. Mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen gwaith pellach i leihau swmp yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu hyfforddiant a chymorth i awduron pwyllgorau (gweler **argymhelliad 3**) ac yna cyflwyno hyn iddynt. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gynyddol yn amcanu at ddefnyddio sesiynau briffio ar gyfer y Bwrdd fel ffordd o gynnwys aelodau annibynnol ar adeg gynnar mewn trafodaethau trwy ddefnyddio diweddariadau a chyflwyniadau ar lafar, a thrwy hynny leihau'r lefel o fanylder y mae ei hangen wrth drafod eitemau yng nghyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd a phwyllgorau.

27 Fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 2**, cyflwynir yr un Adroddiad Perfformiad Integredig i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd hefyd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu holl ehangder busnes y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddisgrifio perfformiad yn hytrach na pha gam gweithredu a gymerir i'w wella neu ei gynnal (gweler **argymhelliad 4**). Mae cyfle yn awr i ystyried datrysiadau digidol i wneud yr adroddiad yn fwy rhyngweithiol i'r darllenydd.

28 Yn fwy cyffredinol, mae'r Bwrdd wedi parhau i gael storïau cleifion yn holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar effaith COVID-19, ac fe ddarperir diweddariadau da mewn perthynas â'r amryw drefniadau partneriaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan ohonynt.

29 Mae'r gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn cael ei diweddaru'n gyson ac yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio'n flynyddol, ac mae pob cyfarfod yn cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag eitemau penodol ar yr agenda.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wella'n barhaus

30 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiadau cynhwysfawr o effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau. Fe gynhaliodd y Bwrdd adolygiad manwl o'i drefniadau ym mis Mai 2021 i ategu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Cynhaliwyd sesiwn ryngweithiol rithwir gan ddefnyddio matrics aeddfedrwydd hunanasesu'r Bwrdd. O ganlyniad i'r canfyddiadau mae ffocws rhaglenni gwaith rhai pwyllgorau wedi cael

ei ailbennu i ddarparu mwy o eglurder ynghylch eu maes busnes[3]. Er enghraifft, mae ffocws gwaith y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid mewn perthynas â rheoli perfformiad wedi cael ei ailbennu i ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a defnyddio'r gweithlu ac arian yn unol â fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Mae camau gweithredu eraill yn cynnwys rhoi'r adroddiadau ar faterion allweddol o bwyllgorau'n gynharach ar agenda'r Bwrdd, gan gynnwys sesiwn hyfforddi ar graffu a herio fel rhan o raglen ddatblygu'r Bwrdd a mwy o fyfyrio ar ddiwedd cyfarfodydd. Mae cynllun gweithredu manwl sy'n ategu'r adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ei le ac yn cael ei fonitro gan y Bwrdd.

31 Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, cafodd y Pwyllgor Archwilio adolygiad ymgynghorol y tîm Archwilio Mewnol o drefniadau llywodraethu COVID-19 y Bwrdd Iechyd. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn nodi'r camau gweithredu effeithiol a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i ymateb i'r pandemig, a bod trefniadau llywodraethu wedi cael eu haddasu'n briodol. Codwyd nifer o feysydd i'w hystyried ond fe nododd y tîm Archwilio Mewnol fod y rhain yn hysbys gan mwyaf i'r rheolwyr a bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys tynhau trefniadau caffael i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol yr oedd angen gwneud yn gyflym yn ystyried yr angen i ddarparu gwerth am arian, ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a chydymffurfio â rheolau sefydlog.

32 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal parhad o fewn ei garfan o aelodau annibynnol yn ystod y brigau yn y pandemig, bu nifer o newidiadau. Yn anad dim, cafodd yr ymgynghorydd arbennig blaenorol i'r Bwrdd ei benodi'n Is-Gadeirydd ym mis Rhagfyr 2020, gan ddisodli aelod annibynnol hirsefydlog a oedd wedi bod yn Is-Gadeirydd am yr wyth mis blaenorol. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r gorau iddi hefyd pan ddaeth ei gyfnod i ben ym mis Mehefin 2021. Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi bod heb aelod annibynnol dros gyllid oherwydd proses recriwtio faith a achoswyd gan y pandemig ac etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, mae gan yr Is-Gadeirydd gefndir ym maes cyllid. Cafodd aelod annibynnol newydd dros gyllid ei benodi'n ddiweddar ac fe ymgymerodd â'i swydd ym mis Tachwedd 2021. Fe benododd y Bwrdd Iechyd gadeirydd newydd ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ym is Tachwedd 2020 hefyd. Yn ystod y pandemig, nid yw'r Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd wedi cwrdd ac ni fu unrhyw gynrychiolaeth o'r Fforwm ar y Bwrdd (gweler **argymhelliad 5**).

## Sicrhau bod dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal ei Drefn Reoli Aur[4] a honno'n cael ei chadeirio gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Mae mynychder cyfarfodydd y Drefn Reoli Aur yn cael ei addasu gan ddibynnu i ba raddau y mae COVID-19 yn

[3] Lle y bo'n berthnasol, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r rheolau sefydlog a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2021.

[4] Gweler ein hasesiad strwythuredig 2020 am ragor o wybodaeth am drefniadau rheoli mewn argyfwng.

rhoi pwysau ar y system. A hithau'n atebol i'r Bwrdd Rhyngwyneb Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'r Drefn Reoli Arian Gymunedol COVID-19 wedi parhau i gwrdd hefyd i gynnal goruchwyliaeth reolaidd ar gyfraddau heintio yn y gymuned a'r effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau. Ac eithrio nifer o gelloedd penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19, megis imiwneiddio, cafodd yr elfennau a oedd yn weddill o'r strwythur Rheoli eu dirwyn i ben ym mis Mehefin 2021 a'u hymgorffori yn y strwythur gweithredol. Mae parhad y Trefnau Rheoli Aur ac Arian Cymunedol yn cael ei adolygu'n gyson.

34 Hyd at fis Mawrth 2021, bu'r bwrdd gweithredol a'r uwch dîm arwain yn cwrdd bob wythnos a phob pythefnos i gadw ffocws ar weithgareddau 'busnes fel arfer'. Yr uwch dîm arwain oedd y corff penderfynu, ac roedd y bwrdd gweithredol yn darparu rôl gydlynu. Ers mis Ebrill 2021, mae'r uwch dîm arwain wedi cael ei ddisodli gan Fwrdd Rheoli sy'n dod â'r tîm gweithredol ynghyd gydag arweinwyr gweithredol rheolaethol o fewn grwpiau gwasanaeth y Bwrdd Iechyd[5]. Mae hyn wedi golygu bod y grwpiau gwasanaeth yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn fwy mewn prosesau penderfynu. Ceir presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwasanaeth, sy'n sicrhau bod y penderfyniadau wedi'u cydbwyso ar draws ehangder y meysydd a gwmpesir gan y Bwrdd Iechyd.

35 Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae'r tîm gweithredol wedi gweld rhai newidiadau sylweddol ac yntau wedi bod â nifer o drefniadau interim yn flaenorol:

- Ym mis Ionawr 2021, dechreuodd Prif Weithredwr newydd, ac yntau wedi cael cyfnod pontio byr gyda'r Prif Weithredwr a oedd yn ymadael ar ddiwedd 2020.
- Ym mis Mawrth 2021, fe ymddeolodd y Prif Swyddog Gweithredu. Rhoddwyd trefniant interim yn ei le am chwe mis, a ddaeth i ben ym mis Awst 2021. Rhoddwyd trefniant interim pellach yn ei le nes i Brif Swyddog Gweithredu parhaol ddechrau ym mis Hydref 2021.
- Yn sgîl ymddeoliad y Prif Swyddog Gweithredu blaenorol, fe adferwyd swydd y Cyfarwyddwr Therapïau. Cafodd y Cyfarwyddwr Therapïau blaenorol ei benodi i'r rôl ar sail interim, ac yna'i benodi'n barhaol ym mis Hydref 2021.
- Bu Cyfarwyddwr Cynorthwyol blaenorol y Gweithlu'n gweithredu ar lefel uwch fel Cyfarwyddwr interim y Gweithlu rhwng mis Medi 2020 a'i ymadawiad â'r Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2021. Rhoddwyd trefniadau cyflenwi dros dro yn eu lle cyn sefydlu trefniant interim pellach ym mis Awst 2021 tra'r oedd proses recriwtio yn yr arfaeth ar gyfer penodiad parhaol. Cafodd y sawl a fu'n gwneud y swydd ar sail interim ei wneud yn Gyfarwyddwr parhaol wedyn ym mis Tachwedd 2021.

[5] Mae gan y Bwrdd Iechyd bedwar grŵp gwasanaeth a roddwyd ar waith yn llawn yn 2020 – Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Ysbyty Treforys, ac Ysbytai Singleton a Chastell-nedd Port Talbot.

- Ym mis Gorffennaf 2021, fe ymadawodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid ar secondiad â'r Bwrdd Iechyd, ac fe dynnwyd y swydd allan o'r strwythur. Fe grëwyd swydd Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd gyda phenodiad interim yn cael ei wneud, hynny hefyd ym mis Gorffennaf 2021.
- Ym mis Medi 2021, cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid interim ei wneud yn Gyfarwyddwr Cyllid parhaol, ac yntau wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyllid interim ers mis Chwefror 2020.
- Roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol wedi bod yn gweithredu ar lefel uwch fel Cyfarwyddwr interim Nyrsio a Phrofiad Cleifion ers mis Gorffennaf 2020 ac roedd i fod i ymddeol yn 2021. Aflwyddiannus fu'r ymdrechion i recriwtio rhywun i'w benodi i swydd barhaol ac ym mis Hydref 2021, fe secondiwyd y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion blaenorol yn ôl i'r Bwrdd Iechyd am gyfnod o ddwy flynedd.
- Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu y byddai'n gadael y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r trefniadau interim yn cael eu gwneud ar hyn o bryd.
- A hynny wedi cael ei nodi fel cam gweithredu yn 2020, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl i ddarparu cydnerthedd a chapasiti ychwanegol.

36 Mae newidiadau wedi parhau i gael eu gwneud yn dilyn ailstrwythuro grwpiau gwasanaeth gweithredol y Bwrdd Iechyd. Mae gan y timau triwrol ar lefel y grwpiau gwasanaeth a'r lefel isadrannol islaw gymysgedd o staff a benodwyd yn ddiweddar i'r swydd, trefniadau interim, a swyddi gwag heb eu llenwi. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes nyrs arweiniol ar gyfer yr Isadran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig na'r Isadran Gwasanaethau Arbenigol.

37 Mae'r newidiadau ar lefel weithredol ac uwch reolwyr yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o feddwl a syniadau newydd, ond maent hefyd yn cyflwyno heriau o ran cynnal parhad busnes a datblygu timau cydlynol. Dechreuodd rhaglen o ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd wyneb yn wyneb i'w gwneud yn bosibl datblygu'r Bwrdd a'r tîm gweithredol ym mis Medi 2021.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[6]

38 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ar gyfer parhau â'i ymateb i COVID-19 a chynllunio ac ailosod gwasanaethau, tra'i fod hefyd yn amcanu at ddarparu cynaliadwyedd tymor hwy. Bu**

[6] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru a hynny'n flynyddol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru atal y broses CTCI ar gyfer 2020-23 ym mis Mawrth 2020, i ganiatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd hi'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig 2021 (cam un) ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd.

**ymgysylltu cadarnhaol ynghylch newidiadau i wasanaethau ac mae partneriaethau'n gweithio'n dda. Mae adroddiadau i'r Bwrdd ar gynnydd o ran cyflawni'r cynllun yn arfer da.**

39 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar boblogaeth Bae Abertawe, ac mae'r angen i'r Bwrdd Iechyd ymateb i liniaru'r risgiau sy'n deillio o COVID-19 wedi dwyn cost enfawr i'w allu i ddarparu gwasanaethau rheolaidd. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Blynyddol 2021-22 (y Cynllun Blynyddol), sy'n nodi sut y mae'n bwriadu rheoli'r ymateb parhaus i'r pandemig ac ailosod ac adfer gwasanaethau. Cafodd aelodau'r Bwrdd olwg gynnar ar y cynllun a oedd yn datblygu yn ystod sesiynau briffio'r Bwrdd. Fe wnaeth y Bwrdd drafod y Cynllun Blynyddol drafft yn ffurfiol yn ei gyfarfod mewn pwyllgor ym mis Mawrth 2021 a'i gymeradwyo yn amodol ar nifer o newidiadau.

40 Roedd adborth Llywodraeth Cymru ar y cynllun drafft yn gadarnhaol at ei gilydd. Roedd yr adborth yn cydnabod uchelgais cryf, dysgu amlwg o gynllunio yn ystod y pandemig, ffocws cryf ar les staff a'r dyhead i adeiladu ar fentrau arloesol newydd a ffyrdd newydd o weithio. Roedd angen eglurder a sicrwydd pellach ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni, y gallu i recriwtio'n ddigonol, sut y byddai gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu defnyddio i gefnogi adferiad parhaus, y manylion sy'n tanategu cynlluniau gofal a chanser, ac aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol. Ymdriniwyd â'r meysydd hyn yn y Cynllun Blynyddol terfynol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021 ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r graddfeydd amser gofynnol.

41 Yn 2019, fe lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Strategaeth Sefydliadol 'Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell'. Fe lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol hefyd, a oedd yn nodi ei uchelgais a'i flaenoriaethau ar gyfer ei wasanaethau clinigol dros y cyfnod hyd at 2024, fel cynllun galluogi i gyflawni ei strategaeth. Yng ngoleuni pandemig COVID-19, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailedrych ar ei strategaeth a'i gynllun gwasanaethau clinigol ac wedi cadarnhau bod y ddau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Mae'r Cynllun Blynyddol wedi cael ei lunio yng nghyd-destun y strategaeth a'r cynllun gwasanaethau clinigol, gan nodi bod angen diweddaru'r strategaeth i ystyried amcanion lles a chydraddoldeb diwygiedig y cytunwyd arnynt yn 2020.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld twf sylweddol yn nifer y cleifion sy'n disgwyl am ofal wedi'i gynllunio, gan barhau i ymateb i anghenion cleifion â COVID-19. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella mynediad at wasanaethau. Ym mis Mehefin 2021, cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol o £16.1 miliwn i gefnogi adferiad gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi parhad camau gweithredu a ddatblygwyd yn ystod 2020-21 yn ogystal â darparu capasiti mewnol ac allanol ychwanegol i ymateb i'r ôl-groniad cynyddol o ran gweithgarwch.

43 Mae'r Cynllun Blynyddol yn cydnabod yr angen i wneud rhai newidiadau sylweddol i wasanaethau yn y tymor byr, canolig a hwy i alluogi'r Bwrdd Iechyd i adfer o'r pandemig. Ym mis Gorffennaf 2021, fe lansiodd y Bwrdd Iechyd ei ymgyrch 'Newid ar gyfer y Dyfodol' i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd a staff â newidiadau arfaethedig i wasanaethau gofal brys a gofal wedi'i gynllunio. Bydd y cynigion yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn sefydlu ei dri phrif ysbyty fel tair canolfan ragoriaeth (**arddangosyn 3, 2019 A1**). Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2021 gan ddenu lefel uchel o ymgysylltiad o blith y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid. Roedd mwyafrif sylweddol (90%) o'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddor creu tair canolfan ragoriaeth.

44 Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys wyth rhaglen waith. Mae gan bob raglen arweinydd gweithredol a enwebwyd, fe'i cefnogir gan swyddfa rheoli rhaglenni'r Bwrdd Iechyd, ac fe'i cyflawnir trwy fwrdd rhaglen neu grŵp cyflawni rhaglen. Ategir pob rhaglen gan gynllun 100 diwrnod, a bydd cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Blynyddol yn cael ei fonitro yn erbyn hwnnw. Caiff y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cynllun Blynyddol ei oruchwylio gan y Bwrdd Rheoli ac adroddir ar hynny wrth y Bwrdd yn chwarterol (**arddangosyn 2, 2019 A2**). Mae adroddiadau ar gynnydd yn darparu crynodeb lefel uchel o'r sefyllfa o ran camau gweithredu y cytunwyd eu cyflawni yn ystod y chwarter diwethaf gan ddefnyddio sgoriau CAG. Lle nad yw cynnydd ar y trywydd iawn, adroddir ar gamau lliniarol ynghyd â'r risgiau i gyflawni'r Cynllun Blynyddol ar y cyfan. Ategir y papur gan offeryn tracio'r Cynllun Blynyddol. Mae adroddiadau chwarterol y Bwrdd Iechyd ar gyflawni'r Cynllun Blynyddol yn fodel o arfer da.

45 Ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Adfer a Chynaliadwyedd, i alluogi gwasanaethau clinigol a sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd i ddod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r cynllun yn cwmpasu agenda trawsnewid y Bwrdd Iechyd (**arddangosyn 2, 2019 A3**). Fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 35**, fe ymadawodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid â'r Bwrdd Iechyd, ac fe dynnwyd y swydd allan o'r strwythur. Maes o law fe daeth y Tîm Trawsnewid yn gyfrifoldeb i'r Prif Swyddog Gweithredu.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid i gyflawni ei Gynllun Blynyddol. Mae datrysiadau rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda'n helpu i ymateb i alw sydd wedi pentyrru ym maes offthalmoleg yn ogystal â nifer o feysydd eraill sy'n flaenoriaeth. Cytunwyd ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i sefydlogi gwasanaethau arbenigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gydweithio'n agos iawn gyda'r ddau awdurdod lleol, gyda'r Cadeirydd bellach yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae datrysiadau ar y cyd wedi cael eu datblygu i ymateb i'r diffyg cyflenwad o ddarpariaeth gofal, gan gynnwys datblygu swyddi gweithwyr gofal iechyd ar y cyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ddatgyfuno gwasanaethau yn dilyn y newid i ffin Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019.

**Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed gydag argymhellion mewn blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2019 A1: Cynllunio strategol**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau ystadau ac asedau i danategu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a bydd angen iddo sicrhau bod gofynion o ran asedau ac ystadau'n cael eu diffinio'n glir a'u hadlewyrchu yn y cynllun cyfalaf hirdymor. | **Ar y gweill**<br>Datblygodd y Bwrdd Iechyd gynllun ystadau amlinellol i danategu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, ond ni fwriwyd ymlaen â hwn oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae agweddau ar y cynllun ystadau'n tanategu'r Cynllun Blynyddol, ac yn cynnwys sefydlu tair canolfan ragoriaeth. |
| **2019 A2: Cynllunio strategol**<br>Mae'r broses o roi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol ar waith yn symud yn ei blaen ond nid yw eto'n glir sut y bwriedir adrodd ar gyflawni. Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu fframwaith adrodd ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol i gefnogi proses effeithiol i fonitro a chraffu ar y modd y rhoddir y Cynllun Gwasanaethau Clinigol ar waith. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu proses gadarn ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir ei gynllun trwy ddefnyddio cynlluniau 100 diwrnod, a oruchwylir gan y Bwrdd Rheoli ac yr adroddir arno'n chwarterol trwy ddefnyddio adroddiad ar gynnydd sy'n cynnwys sgoriau CAG. |
| **2019 A3: Rhaglen drawsnewid**<br>Mae'r rhaglen drawsnewid wedi cael ei sefydlu ac mae saernïaeth y rhaglen wedi cael ei dylunio. Yn awr mae angen sicrhau dealltwriaeth sefydliadol am yr agenda newid a thrawsnewid, a bod y portffolios yn gwbl gyson â'i gilydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu; a<br>b) profi'r rhyng-gysylltiadau rhwng y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a rhaglenni sy'n galluog. | **Wedi ei gau**<br>Mae agenda drawsnewid y Bwrdd Iechyd bellach wedi cael ei disodli gan ei gynllun adfer a chynaliadwyedd. Mae trefniadau rheoli rhaglenni yn eu lle i roi cymorth i gyflawni'r wyth rhaglen waith a nodir yn y Cynllun Blynyddol, sy'n ategu'r broses o gyflawni'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol ar y cyfan. |

## Systemau sicrwydd

47 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da a chefnogi lles staff. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn ei gwneud yn bosibl craffu'n effeithiol ar risgiau strategol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu risgiau gweithredol ac ansawdd ac mae cyfle i wella'r modd y creffir ar y broses o roi argymhellion archwilio ar waith.**

### Rheoli risg

48 Mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, rydym wedi cyfeirio at y ffaith nad oedd gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a chynlluniau dilynol gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu un. Roedd y Fframwaith i fod i gael ei roi ar waith ym mis Rhagfyr 2019. Wedi hynny bu oedi gyda hyn ac yna fe effeithiwyd ymhellach arno gan bandemig COVID-19. Ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2021 ac yna ar gyfer cymeradwyaeth derfynol ym Mhwyllgor Archwilio mis Gorffennaf 2021 ac yna'r Bwrdd.

49 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'n glir beth yw'r prif risgiau i gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd, y rheolaethau, a'r sicrwydd, a lle y bo'n bosibl, unrhyw fylchau a chamau gweithredu cysylltiedig. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn defnyddio sgoriau sicrwydd i amlygu ar lefel uchel unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.

50 Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Yr uchelgais yw bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn aros yn ddogfen fyw, gan gael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu, er enghraifft, amcanion sefydliadau a diweddariadau ar gamau gweithredu. Mae goruchwyliaeth ar y prif risgiau wedi cael ei haseinio i bwyllgor perthnasol i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cyd-fynd â meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau.

51 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio'n craffu'n rheolaidd ar Gofrestr Risgiau'r Bwrdd Iechyd. Yn ystod y pandemig, mae'r Drefn Reoli Aur wedi bod yn goruchwylio cofrestr risgiau COVID-19 ar wahân, gyda chyfeiriad yn cael ei gynnwys yn y diweddariad i'r Bwrdd ar y Gofrestr Risgiau ehangach. Nid yw risgiau COVID-19 wedi cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Bwrdd Iechyd am bod y risgiau penodol islaw parodrwydd cyfredol y Bwrdd i dderbyn risg a'u bod felly'n cael eu trin fel risgiau gweithredol.

52 Cefnogir y broses o reoli risg gan Grŵp Rheoli Risg sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phanel Craffu ar Risg, sy'n cynnwys aelodau o'r tîm llywodraethu. Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn darparu goruchwyliaeth chwarterol ar y Gofrestr Risgiau i gefnogi'r Bwrdd Rheoli, ac mae'r Panel Craffu ar Risg yn cymedroli unrhyw risgiau newydd a cheisiadau i uwchgyfeirio risgiau i'r Gofrestr Risgiau, cyn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Rheoli i gael eu cymeradwyo. Er bod y grwpiau hyn wedi cael eu hatal dros dro yn ystod ton gyntaf

COVID-19, cafodd y grwpiau eu hadfer tuag at ddiwedd 2020 ac maent wedi parhau i gwrdd trwy gydol 2021.

53 Cafodd adolygiad o Gofrestr Risgiau'r Bwrdd Iechyd ei gynnal gan y Grŵp Rheoli Risg a'r Bwrdd Rheoli ym mis Mai 2021. O ganlyniad, gofynnodd y Prif Weithredwr i bob Cyfarwyddwr Gweithredol adolygu a diweddaru risgiau gyda'u maes cyfrifoldeb hwy, gyda ffocws penodol ar gamau lliniaru a graddfeydd amser. Cafodd Cofrestr Risgiau ddiwygiedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd, a oedd yn ymgorffori diwygiadau, ei chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Bydd rhifyn pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Bwrdd wedi adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg yn chwarterol, gyda pharodrwydd i dderbyn risg o 20 ac uwch yn dal i fodoli ers dechrau'r pandemig. Ym mis Medi 2021, roedd gan y Bwrdd Iechyd 21 o risgiau â sgôr o 20 ac uwch.

54 Ym mis Ebrill 2020, nododd y Tîm Archwilio Mewnol mai dim ond sicrwydd cyfyngedig y gallai'r Bwrdd ei gymryd ynghylch ei drefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Roedd yr adroddiad yn amlygu rhai meysydd allweddol i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas â'r rhyngwyneb gyda rheoli risgiau gweithredol ar lefel weithredol. Ym mis Mai 2021, cyflwynodd y Tîm Archwilio Mewnol adroddiad pellach i'r Pwyllgor Archwilio a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar welliannau o ran ymgysylltu â grwpiau gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd cyfamod bod angen cryfhau rhai materion gweithredol a materion adrodd o hyd. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol i fod i gwblhau adolygiad pellach yn gynnar yn 2022.

55 Yn ystod 2021, mae'r Tîm Sicrwydd Ansawdd wedi bod yn darparu hyfforddiant i staff gweithredol i wella gweithgarwch cofnodi, sgorio a monitro risgiau. Mae'r gwaith o gyflwyno'r hyfforddiant wedi dechrau yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbytai Singleton a Chastell-nedd Port Talbot a bydd yn symud ymlaen at grwpiau gwasanaeth eraill. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod hyfforddiant wedi profi'n ddefnyddiol o ran cynyddu'r ffocws ar reoli risg ar lefel weithredol. Mae'r hyfforddiant yn angenrheidiol am bod ein gwaith diweddar ar lywodraethu ansawdd wedi canfod bod rheoli risg ar lefel weithredol angen gwaith pellach o hyd, gyda materion sy'n achosi pryder mewn perthynas ag ansawdd cofrestrau risgiau yn enwedig o fewn yr isadrannau.

## Sicrwydd ansawdd a diogelwch[7]

[7] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar drefniadau llywodraethu ansawdd fel rhan o'n hasesiad strwythuredig 2021 gan ein bod yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r adolygiad wedi ystyried a yw trefniadau llywodraethu ansawdd y sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Cyhoeddwyd adroddiad ar ein canfyddiadau ym mis Tachwedd 2021.

## Trefniadau lles staff

56 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i drin lles staff fel blaenoriaeth uchel. Ceir ymrwymiad clir yn y Cynllun Blynyddol 2021-22 i 'gynorthwyo staff i fod yn gyfnerth, yn iach ac mewn gwaith ar ôl COVID-19, trwy sicrhau bod ystod o ymyriadau ymatebol ac wedi'u targedu sy'n hybu adferiad'. Fe ymrwymwyd i ddatblygu Strategaeth Lles Staff ar ôl COVID-19 mewn ymateb i nifer o arolygon staff a gynhaliwyd yn ystod 2020 a 2021. Cafodd y strategaeth ddrafft ei chymeradwyo gan y bwrdd gweithredol ym mis Mai 2021.

57 Ategir y Strategaeth Lles gan gynllun gwella lles staff sy'n nodi ystod o nodau, camau gweithredu a deilliannau bwriadedig y mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio'u cyflawni. Ategir y Strategaeth Lles hefyd gan Gynllun Gwella Iechyd Galwedigaethol ac ystod o fentrau, y mae rhai ohonynt wedi bod ar waith ers dechrau'r pandemig. Trefnwyd fod cyllid ar gael i wella lles staff, gan gynnwys parhau i gyflwyno'r Rhaglen Rheoli Risg o Drawma a ddatblygwyd gyntaf gan fyddin y DU i ddarparu gwasanaeth ymyrryd yn gynnar ac atal mewn ymateb i anhwylder straen wedi trawma. Adroddir ar gynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth Lles a chynlluniau ategol wrth Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, gyda diweddariadau'n cael eu darparu ar gyfer y Bwrdd trwy adroddiad materion allweddol y Pwyllgor.

58 Mae Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd yn cael gwybodaeth reolaidd am y gweithlu'n fwy cyffredinol, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, lefelau swyddi gwag, cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, a lefelau staffio diogel.

## Ansawdd gwasanaethau

59 Yr Adroddiad Perfformiad Integredig yw'r prif gyfrwng ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd a phwyllgorau ynghylch sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio yn erbyn mesurau cyflawni cenedlaethol a mesurau ansawdd lleol allweddol. Gan ddilyn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, cafodd strwythur yr adroddiad ei gysoni â'r pedwar cwadrant niwed. Mae tudalen grynhoi ar ddechrau'r adroddiad yn defnyddio sgoriau CAG i ddarparu trosolwg gyflym i'r darllenydd ar feysydd sy'n achosi pryder. Fodd bynnag, fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 27**, mae'r adroddiad yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddisgrifio perfformiad yn hytrach na pha gamau gweithredu a gymerir i'w wella neu ei gynnal.

60 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cael adroddiadau manylach ar feysydd penodol lle ceir pryder ynghylch ansawdd. Er enghraifft, roedd y Bwrdd wedi codi pryderon ynghylch y risg o niwed sy'n gysylltiedig â'r nifer fawr o gleifion offthalmoleg ag apwyntiadau dilynol y bu oedi cyn eu cynnal. Cafodd y risg hon ei huwchgyfeirio o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau rheolaidd. Sefydlwyd Trefn Reoli Aur offthalmoleg i gydlynu a hwyluso'r cynlluniau gweithredu lliniarol. Darperir adroddiadau sy'n rhoi diweddariadau ar gynnydd ar gyfer y Bwrdd.

61 Ym mis Mehefin 2021, cafodd y Bwrdd Iechyd ganlyniadau adolygiad Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT), a gomisiynwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, o lawfeddygaeth gardiaidd a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Cododd yr adroddiad bryderon penodol ynghylch perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys canlyniadau llawfeddygaeth falf feitrol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r adroddiad, gan fynd ati ar unwaith i sefydlu Trefn Reoli Aur llawfeddygaeth gardiaidd i oruchwylio datblygiad cynllun gweithredu cynhwysfawr. Mae'r Bwrdd wedi bod yn cael ei hysbysu'n gyson ynghylch cynnydd, ac fe gyflwynwyd adroddiad ffurfiol yn rhoi diweddariad ar y cynnydd i gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ym mis Hydref 2021.

62 Yn gynharach yn 2021, fe gymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad y grwpiau gwasanaeth a'r cyfarwyddiaethau corfforaethol. Mae'r fframwaith yn nodi cyfres o lefelau uwchgyfeirio sy'n amrywio o ymreolaeth a enillir i fesurau arbennig, gan adlewyrchu i ba raddau y mae angen cymorth priodol i adfer perfformiad. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd gwasanaethau gofal mewn argyfwng a gofal bwys yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys a gwasanaethau canser yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Singleton dan drefniadau monitro uwch. Darperir diweddariadau ar gynnydd gyda chynlluniau gweithredu ar gyfer y ddau faes gwasanaeth yma ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.

63 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymatebol i fynd i'r afael â meysydd allweddol y ceir pryder ynghylch ansawdd mewn perthynas â hwy trwy fabwysiadu trefniadau megis defnyddio Trefn Reoli Aur a lefelau uwchgyfeirio. Fodd bynnag, roedd y materion a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad GIRFT o lawfeddygaeth gardiaid yn syndod i'r

Bwrdd Iechyd. Er ei fod yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da, mae ein gwaith llywodraethu ansawdd wedi amlygu bod gwaith sylweddol i'w wneud i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ansawdd ar lefel weithredol a sicrhau sicrwydd digonol ynghylch materion sy'n llifo i fyny ac i lawr y sefydliad.

### Tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac adolygu

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw ystorfa ganolog o'r holl gynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwaith archwilio mewnol ac allanol blaenorol. Mae'r cynlluniau gweithredu ar gael ar borth cyllid y Bwrdd Iechyd fel bod uwch reolwyr yn gallu eu diweddaru trwy gydol y flwyddyn.

65 Cyflwynir crynodeb o statws argymhellion archwilio i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Hyd at fis Ionawr 2021, roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad cryno o'r newidiadau yn nifer yr argymhellion, nifer yr argymhellion a oedd yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith a pha mor hwyr oedd yr argymhellion a oedd yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Nid oedd unrhyw fanylion yn cael eu cynnwys mewn perthynas ag argymhellion unigol. Ar gais y Pwyllgor Archwilio, roedd adroddiadau yn nau gyfarfod dilynol y Pwyllgor Archwilio (mis Mawrth a mis Mai 2021) yn canolbwyntio'n benodol ar argymhellion a gododd o adroddiadau Archwilio Mewnol â sgôr sicrwydd cyfyngedig.

66 Ers y cyfarfodydd hyn, mae'r adroddiad ar statws argymhellion archwilio wedi newid yn ôl i ddadansoddiad lefel uchel o nifer yr argymhellion. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2021, nodwyd yn yr adroddiad fod 30 o argymhellion archwilio allanol a 78 o argymhellion archwilio mewnol yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Roedd crynodeb byr o'r argymhellion a oedd wedi troi'n rhai hwyr (13 o argymhellion) ers y cyfarfod diwethaf wedi'i gynnwys, ond nid oedd manylion y 95 a oedd yn weddill wedi'u cynnwys.

67 Byddai o fudd i'r Pwyllgor Archwilio weld yr holl argymhellion ac ymatebion wedi'u diweddaru gan y rheolwyr. Heb fanylion argymhellion unigol, mae'n anodd i aelodau annibynnol gymryd sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd ar gyfer argymhellion sy'n hwyr a'r rhai sydd ar y gweill (Gweler **argymhelliad 6**).

68 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2021, roedd yr adroddiad ar statws argymhellion archwilio'n dynodi bod pum argymhelliad yn dal heb gael eu rhoi ar waith mewn perthynas ag asesiadau strwythuredig blaenorol. Drwy'r adroddiad hwn, rydym wedi asesu cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

69 Nid yw'r Pwyllgor Archwilio'n gweld cynnydd yn erbyn argymhellion gan sefydliadau allanol eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Uned Gyflawni, er bod diweddariad ar argymhellion AGIC yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ar brofiad cleifion i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol ar hyn o bryd, gyda diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar archwilio clinigol yn fwy cyffredinol yn cael ei gyflwyno dim ond unwaith y flwyddyn. Rydym wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas ag archwilio clinigol fel rhan o'n gwaith llywodraethu ansawdd.

# Rheoli adnoddau ariannol

70 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, ei reolaethau ariannol a'i drefniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

71 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol, ei fod wedi cynnal rheolaethau a threfniadau adrodd ariannol effeithiol, a'i fod yn gweithio'n galed i gyflawni adferiad ariannol.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

72 Canfuom **nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21, gan ddiweddu'r flwyddyn â diffyg o £24.3 miliwn. Er bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei gynllun ariannol ar gyfer 2021-22, bydd yn parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol oherwydd diffyg wedi'i gynllunio ar ddiwedd y flwyddyn o £24.4 miliwn.**

### Perfformiad ariannol 2020-21

73 Ar ddiwedd 2020-21, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros gyfnod treigl o dair blynedd. Nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £24.3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, a diffyg dros gyfnod treigl o dair blynedd o £50.5 miliwn ar gyfer y cyfnod 2018-21. Fodd bynnag, roedd diffyg ariannol diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 o fewn y cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef £24.4 miliwn. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gwrdd â'i Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £48 miliwn, gyda thanwariant yr adroddwyd arno o £0.028 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

74 Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar y costau refeniw a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei gynllun ariannol 2020-21. Yn ystod 2020-21, cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol o £203.5 gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys £54.6 miliwn o gyllid cyfalaf. Diben y cyllid ychwanegol hwn oedd cefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig, gan gynnwys sefydlu ysbytai maes, a sefydlu'r rhaglenni Profi, Olrhain, Diogelu a Brechu Torfol.

75 Cafodd y pandemig effaith ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei darged arbedion wedi'u cynllunio o £22.7 miliwn (a nodwyd yn ei gynllun ariannol ar gyfer 2020-21) hefyd. Ym mis 1, roedd £11.5 miliwn o gynlluniau arbedion wedi cael eu hadnabod. Ym mis 12, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £6.7 miliwn o arbedion. Cafodd arbedion eu cyflawni trwy ostyngiad mewn costau asiantaeth a locwm, cyfyngu ar gostau gweithgareddau heblaw cyflogau, a gostyngiad mewn costau rheoli meddyginiaethau. Cafodd y methiant i gyflawni'r arbedion a oedd yn weddill o'r targed ei wrthbwyso gan ostyngiadau mewn gwariant heblaw cyflogau o ganlyniad yn uniongyrchol i'r pandemig.

76 Tra bu dan 'ymyrraeth wedi'i thargedu' fel rhan o Drefniadau Dwysau ac Ymyrryd GIG Cymru ers mis Medi 2016, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu trefniadau

cynllunio blynyddol mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, gan weithio i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd y gellir ei gymeradwyo a chynllun ariannol. Oherwydd COVID-19, ataliwyd y gofyniad i fod â CTCI ar gyfer y cyfnod 2020-23; fodd bynnag, gan nad oedd gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2019-22, methodd â chyflawni ei ddyletswydd i fod â chynllun cymeradwy ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021. Ym mis Hydref 2020, cafodd y Bwrdd Iechyd ei isgyfeirio i statws 'monitro manylach'.

## Perfformiad ariannol 2021-22

77 Cafodd cynllun ariannol drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22 ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Mawrth 2021 a'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2021 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n nodi gorwariant rhagamcanol o £24.4 miliwn. Mae rhai o'r tybiaethau sylfaenol yn cynnwys pwysau o ran costau o £25.6 miliwn, namyn codiad yn y cymorth a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru o £15.1 miliwn. Ym mis 6, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £12 miliwn a oedd yn gyson â'i broffil ariannol fwy neu lai, er bod cydnabyddiaeth y bu gorwariannau mewn rhai meysydd y mae'n ofynnol eu monitro'n fanwl.

78 Mae cynllun ariannol 2021-22 yn cynnwys targed arbedion ariannol uchelgeisiol o £27.7 miliwn. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd cynlluniau i adnabod y lefel ofynnol o arbedion yn eu lle gyda statws gwyrdd neu ambr wedi'i nodi ar gyfer 85% o'r cynllun arbedion. Nid oedd y 15% a oedd yn weddill o'r cynlluniau arbedion ar lefel o hyder a oedd yn nodi y byddent yn cael eu cyflawni eto. Ym mis 6, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £14.1 miliwn o arbedion, ac roedd £0.2 miliwn ar y blaen i'w broffil. Fodd bynnag, mae nifer o'i gynlluniau arbedion y rhoddwyd statws ambr iddynt wedi'u proffilio i gael eu cyflawni dros y chwe mis nesaf. Caiff y gallu i gyflawni'r arbedion hyn ei gydnabod yn risg gan y Bwrdd.

79 Mae'r cynllun ariannol hefyd yn tybio y ceir cyllid ychwanegol o £99 miliwn i ariannu costau sy'n gysylltiedig â chefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig. Ym mis 6, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael £47.7 miliwn. Fodd bynnag, mae costau a ragwelir wedi codi bellach i £128 miliwn oherwydd costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi tybio y bydd yn cael £118.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun ariannol hefyd yn cynnwys y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £16.1 miliwn i gefnogi adferiad gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau blwyddyn ariannol 2021-22 â diffyg sylfaenol o £42 miliwn. Mae'n cydnabod yr heriau ariannol y bydd yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf a'r angen i fod yn ariannol gynaliadwy. Fel lleiafswm, mae'n debygol y bydd ar y Bwrdd Iechyd angen oddeutu £11 miliwn o arbedion cylchol bob blwyddyn i gynnal y lefel gyfredol o ddiffyg.

81 Ceir ffocws eglur ar adferiad ariannol trwy drafodaethau'r Bwrdd Iechyd gyda gwaith sydd wedi'i rannu'n bedwar cam ar y gweill i gefnogi adferiad yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys dilysu'r ddyled sylfaenol, adnabod cyfleoedd ar gyfer

arbedion ac ailddyrannu adnoddau, a deall cyfleoedd i fuddsoddi a dadfuddsoddi trwy'r weledigaeth strategol. Byddai'r ffaith bod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i sefyllfa o ran arbedion yn cyd-fynd ar hyn o bryd â'r proffil yn awgrymu bod y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar adferiad ariannol hyd yma.

82 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei gynllun adferiad a chynaliadwyedd ariannol ar gyfer y cyfnod 2022-25 i hwyluso symudiad y Bwrdd Iechyd i sefyllfa ariannol gadarnhaol. Bydd hyn yn ddibynnol ar gyflawni arbedion sylweddol, gostyngiad mewn buddsoddiadau a chael y cyllid a dybiwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Rheolaethau ariannol

83 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn dal i gynnal rheolaethau ariannol priodol a'i fod yn parhau i gryfhau rheolaeth ariannol i gefnogi adferiad ariannol.**

84 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal rheolaethau ariannol priodol. Yn ystod chwarter cyntaf 2021-22, cynhaliwyd adolygiad o reolaethau ariannol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Nid oedd angen unrhyw newidiadau, ac mae'r rheolaethau ariannol wedi newid yn ôl i'r trefniadau arferol i raddau helaeth.

85 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiadau'n rheolaidd ar gaffael, colledion a thaliadau arbennig. Mae adroddiadau caffael yn nodi'n glir beth yw nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol a'r Awdurdodiadau Dyfynbris Unigol, gwerthoedd a rhesymau pam na ddilynwyd gweithdrefnau caffael safonol. Mae nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol ac Awdurdodiadau Dyfynbris Unigol wedi aros yn weddol gyson ond yn dal i fynd trwy brosesau craffu rheolaidd.

86 Rhoddodd adolygiad y Tîm Archwilio Mewnol o systemau ariannol sicrwydd sylweddol, gan ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer rheoli cronfeydd elusennol. Trwy archwiliad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, darparwyd sicrwydd rhesymol hefyd ar gyfer cyfrifon taladwy a'r gyflogres. Mae'r holl benderfyniadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19 yn dal i gael eu hystyried trwy strwythur y Drefn Reoli Aur. Mae canolfannau costau ar wahân yn bodoli ar gyfer rhaglenni ymateb penodol. Cyflwynir adroddiadau ar gostau ymateb gweithredol trwy ganolfannau costau gwasanaethau, gyda phroses herio yn ei lle trwy adolygiadau misol o berfformiad a gynhelir gyda'r Grwpiau Gwasanaeth i sicrhau bod costau a briodolwyd i COVID-19 yn briodol. Ni chanfu ein harchwiliad ni o'r datganiadau ariannol unrhyw faterion arwyddocaol mewn perthynas â rheolaethau ariannol.

87 Yn dilyn adolygiad KPMG ym mis Chwefror 2020 i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wella'i sefyllfa ariannol a'i sefydlogrwydd tymor hwy, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r argymhellion a ddeilliodd (**arddangosyn 3, 2019 A4**). Mae'r cyfleoedd arfaethedig a nodwyd gan KPMG wedi parhau i gael eu datblygu ac maent bellach yn goleuo cynllun adfer a chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd. Mae datblygiad y cyfleoedd arfaethedig wedi cael ei gefnogi gan y defnydd

o Becyn Cymorth Dysgu ar gyfer Defnyddio a Dyrannu i ddwyn Gwerth (VAULT)[8] a ddatblygwyd gan yr Uned Cyflawni Ariannol i wella effeithlonrwydd. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso cysyniad Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd a defnyddio data meincnodi i ganfod cyfleoedd ar gyfer mwy o effeithlonrwydd (**arddangosyn 3, 2019 A5**).

88 Mae Swyddfa Rheoli Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei chryfhau hefyd i roi mwy o reolaeth dros gyflawni cynlluniau arbedion a chymorth i feysydd gwasanaeth, a bu mwy o ffocws ar feysydd y nodwyd fod angen mwy o 'Afael a Rheolaeth' arnynt, gan gynnwys costau staff meddygol a nyrsio. Mae partneriaid busnes cyllid yn dal i gael eu defnyddio.

89 Mae Gwasanaeth Atal Twyll y Bwrdd Iechyd yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, ac mae'r broses o gyflawni'r cynllun gwaith atal twyll ar y trywydd iawn. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom nodi mewn adroddiad bod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i atal twyll, bod ganddo drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twylla'i fod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

**Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed gydag argymhellion mewn blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2019 A4: Cyllid a Pherfformiad**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys arbedion cynaliadwy ac effeithlonrwydd yn ei gynlluniau, ond mae'r rhain wedi tangyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu'r rhesymau dros dangyflawni i sicrhau bod cynlluniau realistig yn cael eu pennu a'u cyflawni yn 2020-21. | **Wedi'i gwblhau**<br>Roedd adroddiad KPMG yn nodi cyfleoedd arfaethedig gwerth £47 miliwn dros dair blynedd. Fe wnaeth y cyfleoedd a nodwyd oleuo cynllun arbedion y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 ond oherwydd pandemig COVID-19, cafodd llawer o'r rhain eu gwthio ymlaen i 2021-22, ac maent bellach yn sail i gynllun adfer a chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd. |
| **2019 A5: Cyllid a Pherfformiad**<br>Defnyddir ystod o ymarferion meincnodi ar gyfer gwaith cynllunio, gwella gwasanaethau ac effeithlonrwydd, ond mae cyfle i estyn yr wybodaeth a ddefnyddir mewn | **Wedi'i gwblhau**<br>Fel rhan o'i waith i ymateb i argymhellion KPMG, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn defnyddio rhaglen VAULT yr Uned Cyflawni Ariannol. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o ddata meincnodi sy'n |

[8] Ystorfa ganolog sy'n tynnu cudd-wybodaeth o nifer o ffynonellau i alluogi defnyddwyr i adnabod cyfleoedd i wella gwasanaethau a defnyddio adnoddau.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| perthynas â chostau. Dylai'r Bwrdd Iechyd fwrw ymlaen â'i waith i ddatblygu a defnyddio prosesau costio fel eu bod yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio a rheolaeth ariannol. | cwmpasu data costio ar lefel gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. |

## Monitro ac adrodd

90 Canfuom **fod goruchwyliaeth a chraffu amserol ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, a ategir gan adroddiadau cynhwysfawr.**

91 Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn dal i graffu'n fanwl ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd. Cyflwynir adroddiad y pwyllgor i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd hefyd ynghyd ag adroddiad ariannol manwl i gael ei ystyried fel rhan o brif agenda'r Bwrdd.

92 Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n fanwl trwy gyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli hefyd. Mae trafodaethau'n cael eu goleuo gan adolygiadau rheolaidd o berfformiad ariannol a gynhelir gyda'r Grwpiau Gwasanaeth gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae Grŵp Cynaliadwyedd wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i gefnogi a monitro adferiad ariannol y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r agenda adfer ehangach yn dilyn y pandemig.

93 Mae adroddiadau ariannol yn dal i fod yn gynhwysfawr gyda gwybodaeth yn gyson â'r hyn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru trwy'r Ffurflenni Monitro Misol. Mae adroddiadau'n darparu darlun eglur o'r sefyllfa ariannol, heriau a risgiau, a'r camau lliniarol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys esboniadau clir o'r gwahanol elfennau o gyllid y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cael a'r cynnydd a risgiau cysylltiedig gyda gwariant. Caiff adroddiadau eu hategu'n rheolaidd gan becyn sleidiau sy'n galluogi aelodau i ganolbwyntio ar y materion allweddol. Mae diweddariad ar gynllun adfer a chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd yn cael ei ystyried ym mhob yn ail gyfarfod gan y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwefan y Bwrdd Iechyd**<br>A1 Mae'n anodd gwe-lywio trwy wefan y Bwrdd Iechyd i ddod o hyd i recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd a gwybodaeth gyfoes sy'n ymwneud â'r Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i drefn gwe-lywio'r wefan cyn gynted â phosibl i alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth a recordiadau cyfoes a chael mynediad atynt yn rhwydd. | Mae'r dudalen wedi cael ei hailenwi'n 'Papurau/Dogfennau Allweddol y Bwrdd' ac mae hefyd wedi cael ei haildrefnu ar y gwymplen fel ei bod yn fwy amlwg. | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd Pwyllgorau**<br>A2 Cynhelir y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr un diwrnod gyda'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cael ei gyflwyno i'r ddau. Mae hyn yn arwain at risgiau o ddyblygu mewn trafodaethau, neu fod aelodau o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn colli trafodaethau pwysig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried symud y ffocws manwl ar yr adroddiad perfformiad i brif gyfarfod y Bwrdd, gan leihau'r risg o ddyblygu yng nghyfarfodydd y pwyllgorau a rhyddhau capasiti iddynt gynnal astudiaethau dwfn o feysydd sy'n achosi pryder. | Mae'r Cadeirydd yn adolygu trefniadau'r ddau bwyllgor gyda golwg ar leihau achosion o ddyblygu'r wybodaeth a geir ac a drafodir. Mae rhan o hyn yn cynnwys ystyried a ddylai'r ddau bwyllgor gael yr adroddiad perfformiad integredig ynteu ai dim ond y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ddylai ei gael. Wedyn byddai'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn ystyried meysydd sy'n ymwneud yn fwy â chyflawni gweithredol. | Mawrth 2022 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **Papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau**<br>A3 Gallai hyd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau effeithio ar allu aelodau i amsugno'r wybodaeth a ddarperir ar eu cyfer, gyda rhywfaint o ddyblygu o ran | Bydd hyfforddiant cyfredol yn cael ei ddiwygio a sesiwn ar ysgrifennu adroddiadau'n cael ei darparu ar gyfer aelodau'r Bwrdd Rheoli a'u hawduron adroddiadau allweddol. | Ebrill 2022 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| y cynnwys. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y darperir hyfforddiant ar gyfer awduron papurau agenda i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chrynhoi'n briodol, a bod y negeseuon allweddol yn cael eu hamlygu mewn papurau esboniadol. | | | |
| **Adroddiad Perfformiad Integredig**<br>A4 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddisgrifio perfformiad. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad trwy ddarparu rhagor o berfformiad am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i wella neu gynnal perfformiad. | Mae'r bwrdd iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu cynnwys adroddiadau ar berfformiad y mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn eu cael. Un o'r materion dan ystyriaeth yw sut y gellir cryfhau'r adroddiadau gyda thaflwybrau perfformiad rhagamcanol sy'n edrych tua'r dyfodol a sylwebaeth ar gamau gweithredu a gymerwyd naill ai i gynnal perfformiad neu i'w adfer os bydd yn wahanol i'r proffil. | Mawrth 2022 | Cyfarwyddwr Cyllid |
| **Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd**<br>A5 Yn ystod y pandemig nid yw'r Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd wedi cwrdd ac ni fu unrhyw gynrychiolaeth o'r | Bydd y Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd yn cael ei ailgyfansoddi a bydd yn cwrdd o fis Ionawr 2022. Mae nifer o fylchau mewn aelodaeth oherwydd ymddeoliadau ers y cyfarfod diwethaf a bydd y rhain yn cael eu llenwi. Etholwyd Cadeirydd newydd ym mis Ionawr 2020 ac yn | March 2022 | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| fforwm ar y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adfer y Fforwm Proffesiynol Gofal Iechyd a sicrhau bod y Cadeirydd yn mynychu'r Bwrdd yn rheolaidd. | awr bydd angen inni gadarnhau ei argaeledd i ymgymryd â'r rôl neu ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd. Bydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd o fis Chwefror 2022. | | |
| **Tracio argymhellion archwilio**<br>A6 Er bod trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio yn eu lle, nid oes ffocws rheolaidd ar argymhellion unigol. Fel rhan o'r adroddiad tracio argymhellion archwilio ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys diweddariad ar gamau gweithredu yn erbyn pob argymhelliad unigol | Mae cynnwys adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio ynghylch cofrestrau archwilio a statws argymhellion wedi cael ei adolygu gan y Pennaeth Cydymffurfio a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Interim a'u trafod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Bydd newidiadau y cytunwyd arnynt i arddull a strwythur adroddiadau'n sicrhau bod y pwyllgor yn cael gwybodaeth i hwyluso craffu a herio a darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd. Bydd yr adroddiadau ar eu newydd wedd yn dechrau ym mis Ionawr 2022 ac, fel lleiafswm, yn cael eu cyflwyno deirgwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio. | Mawrth 2022 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.